# Dameg y Gwas Anfaddeugar



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Dysgodd Iesu ddameg y Gwas Anfaddeugar ym Mathew 18:21-35. Mae'r ddameg hon yn dysgu bod rhaid inni faddau i eraill, gan fod Iesu wedi maddau i ni.

Prif Bwyntiau:

- Dylen ni faddau i eraill.
- Mae Duw yn maddau pechodau pobl.
- Dylen ni faddau heb gyfr’r gost.

## Canllaw Gwers

Gofynnwch i'ch plentyn a yw'n gwybod beth mae'n ei olygu i faddau? Esboniwch mai maddau i rywun yw dileu’r ddyled sy arnyn nhw neu anghofio’r dicter rydyn ni'n ei deimlo tuag atyn nhw am wneud rhywbeth o'i le.

Gan ddefnyddio bwrdd gwyn neu fwrdd sialc, gofynnwch i'ch plentyn enwi rhai gweithredoedd drwg a fyddai angen maddeuant. Gwnewch lawer o farciau ar y bwrdd sy'n cynrychioli pob pechod. Er enghraifft, dwyn, anufuddhau, bod yn haerllyg ac ati. Rhannwch sut mae pechod yn britho ‘n bywydau ac mae angen Iesu i'n gwneud ni'n lân.

Nawr, siaradwch am gyfnod y gwnaeth rhywun dro gwael â’ch plentyn. Efallai bod brawd neu chwaer wedi cymryd tegan, neu ffrind wedi bod yn angharedig. Defnddiwch liw gwahanol a gwneud llinell fach i gynrychioli'r pechod a gyflawnodd rhywun yn  eu herbyn. Gofynnwch ar bwy mae’r ddyled fwyaf.

Sychwch y llinellau sy'n cynrychioli eu pechod. Eglurwch mai dyma beth mae Duw yn ei wneud pan fyddwn ni'n gofyn iddo faddau ein pechodau. Bu farw Iesu er mwyn i'n dyled gael ei sychu'n lân.

Nawr, pwyntiwch at y llinell fach sy'n cynrychioli'r weithred wnaeth rhywun yn eu herbyn. Gofynnwch a ddylid maddau.

Rhannwch sut nad yw maddeuant bob amser yn hawdd, ond gan fod Duw yn maddau i ni, dylen ni faddau i eraill.

Gofynnwch i'ch plentyn a yw'n cofio pwy yw Pedr  Darllenwch Mathew 18:21. Gofynnwch i'ch plentyn os yw'n meddwl fod saith gwaith yn ddigon o weithiau i faddau i rywun. Ydyn nhw'n meddwl y dylid maddau mwy neu lai o weithiau Cyfrwch saith gwrthrych ar y llawr.

Darllenwch Mathew 18:22. Er ein bod ni'n meddwl bod saith gwaith yn llawer o weithiau, dywedodd Iesu wrth Pedr am faddau o leia saith deg saith o weithiau. Roedd yn dweud nad oes terfyn ar faint o weithiau y dylen ni faddau oherwydd y ffordd mae Duw yn maddau i ni.

Dechreuwch chwarae gêm o "Dilyn yr Arweinydd." Apwyntiwch eich plentyn fel yr arweinydd, ac os yw'n anghyfarwydd â'r gêm, dywedwch wrtho eich bod i fod i gopïo beth bynnag mae'n ei wneud. Wrth iddyn nhw ddechrau, peidiwch â gwneud unrhyw beth maen nhw'n ei wneud. Gwnewch hi'n amlwg nad ydych chi'n eu copïo. Esboniwch, er eich bod yn dweud eich bod eisiau iddyn nhw fod  yn arweinydd, rydych chi'n dangos nad ydych chi wir eisiau iddyn nhw fod. Siaradwch am sut na allwn ni ddweud ein bod ni eisiau ufuddhau i Iesu, ond yna bod yn anufudd pan mae Ef yn dweud wrthon ni am faddau. Nawr, gofynnwch iddyn nhw ddangos sut i ddilyn yr arweinydd yn dda.

Wrth i'ch plentyn ddilyn a chopïo popeth rydych chi'n ei wneud, ailadroddwch ymadroddion fel, "Mae Iesu'n gariadus" a chael y plentyn yn dweud, "Dylwn i fod yn gariadus." "Mae Iesu'n maddau", "Dylwn i fod yn faddeugar." Parhewch gyda gwahanol briodoleddau Crist, y dylem eu hefelychu: caredig, da, ac ati. Tynnwch sylw at y ffaith bod eich plentyn yn dilyn yn ôl eich troed yn gorfforol y dylen ni ddilyn yn ôl troed ysbrydol Iesu.

Atgoffwch eich plentyn o beth mae'r Beibl yn ei ddweud, "Dylech chi drin eraill y ffordd rydych chi eisiau cael eich trin". Atgoffwch nhw y dylen ni faddau fel rydyn ni am i bobl faddau i ni.

Adroddwch ’Gweddi'r Arglwydd’ (Mathew 6:9-13) gyda’ch gilydd a myfyrio ar adnod 12. "A maddau i ni'n dyledion, fel y'n ni hefyd wedi maddau i'n dyledwyr".

Diolchwch i Dduw ei fod wedi maddau i ni. Gofynnwch iddo ein helpu i faddau i eraill.

© 2023 truewaykids.com




Doedd y brenin ddim yn gallu credu'r hyn wnaeth y dyn.

Roedd wedi cael cymaint o faddeuant ond ni allai e faddau ychydig.

Gorchmynnodd y brenin i'r dyn fynd i'r carchar.

Dywedodd Iesu y dylen ni faddau i eraill am ei fod wedi maddau i ni.





# Y Gwas Anfaddeugar

Un diwrnod roedd dyn oedd mewn dyled fawr i'r brenin.

Ond, doedd ganddo ddim arian i'w dalu.

Dywedodd y brenin y byddai'n rhaid iddo ef a'i deulu ddod yn gaethweision i dalu'r ddyled.

Ymbiliodd y dyn am drugaredd.



Canslodd y brenin ei ddyled enfawr.

Aeth y r un dyn at ddyn arall oedd arno ychydig o arian iddo.

Gafaelodd ynddo a dweud wrtho ei fod eisiau ei arian yn ôl ar unwaith.





Doedd gan yr ail ddyn ddim arian chwaith.

Erfyniodd y dyn am ychydig mwy o amser i dalu'r ddyled.

Ond yn lle maddau i 'r dyn, taflodd ef i'r carchar.

# Gêmau a gweithgareddau

## Ymladd pêl-eira papur

Rholiwch hen bapurau neu gylchgronau i wneud peli papur. Rhannwch yr ystafell yn ddwy gyda ‘r un nifer o beli ar bob ochr. Anogwch y plant i'w rhannu'n gyfartal.

Rhannwch yn dîmau. Ar “Ewch!” rhaid i bob tîm geisio  taflu'r holl beli i ochr y tîm arall. Ar  ôl ychydig, dwedwch, "Stopiwch." Gofynnwch i'r plant amcangyfrif pa ochr sydd â ‘r mwyaf o beli.Yna cyfrifwch y peli i weld pa dîm sy wedi ennill.





## Gêm ddis

Gydag o leiaf dau berson, cymerwch eich tro i rolio dis. Ar ôl i bob person rolio, mae'r person sydd â'r nifer uchaf yn ennill pwynt. Y person cyntaf i gasglu pum pwynt sy'n ennill. Siaradwch a yw'r rhif yn fwy neu'n llai wrth i chi rolio'r dis.

## Trefnu darnau arian


Rhowch rai darnau o bapur ar y bwrdd. Yng nghanol y bwrdd, rhowch lond llaw o ddarnau o  arian o werth gwahanol. Gofynnwch i'ch plentyn ddidoli'r darnau arian drwy roi pob gwerth ar ddarn o bapur. (Gallech ysgrifennu'r gwerth ar y papur.)

Esboniwch sut mae gan wahanol ddarnau arian werthoedd gwahanol. Helpwch eich plentyn i gyfri'r darnau arian a gweld pa bentwr sy o’r werth y mwyaf.




© 2023 truewaykids.com

# Trasiwch a lliwio'r rhif saith




## Ffeindiwch y rhif saith




© 2023 truewaykids.com

# Pa ochr sydd â mwy?

Cyfrifwch yr eitemau a chylchwch yr ochr gyda'r  mwyaf



© 2023 truewaykids.com

# Sawl gwaith?

Sawl gwaith gallwch chi wneud y canlynol mewn 10 eiliad?



Sefyll lan ac
eistedd lawr

Neidio i
fyny ac i lawr





Dweud
eich enw



Dal pêl

© 2023 truewaykids.com

# Pwy oedd â'r ddyled fwyaf?





| Llawer | Ychydig |
| --- | --- |
| | |



© 2023 truewaykids.com


# Maddau i'n gilydd





## Yr hyn sydd ei angen arnoch:

Tudalennau templed,
Pensiliau lliwio,
Siswrn,
Glud
Dewisol (llygaid gwgli)

## Beth i'w wneud:




Lliwiwch dudalennau'r templed a lluniwch yr wyneb.



Trasiwch o gwmpas dwylo'ch plentyn ar bapur.




Torrwch y gwrthrychau allan.Gludwch y breichiau a'r coesau y tu ôl i'r galon.
Glud y dwylo i'r dempled.

© 2023 truewaykids.com





© 2023 truewaykids.com

>>Gludwch yma<<


>>Gludwch yma<<

>>Gludwch yma<<


>>Gludwch yma<<




© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



Stori -

https://youtu.be/CsBM97UUu0E

Forgive One Another

https://youtu.be/Er3xtbTPXEg

You Forgive Me

https://youtu.be/wCKpNihiWCI

The Forgiveness Song

https://youtu.be/jkPhJyB7pJc



# Gweddi

Diolch i Dduw am faddau eich pechodau.

Gofynnwch iddo eich helpu chi i ddweud sori pan fyddwch chi'n gwneud rhywbeth yn anghywir ac i faddau i bobl eraill.

# Wythnos Nesaf

## Y Wraig o Samaria

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com